

HUGHES, OWEN ('yr Arian Mawr'; bu farw 1708), twrne ym Miwmaries.

Enw: Owen Hughes
Ffugenw: Yr Arian Mawr
Dyddiad marw: 1708
Priod: Marged Hughes (née Wynn)
Rhiant: Thomas Hughes
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: twrne
Maes gweithgaredd: Cyfrith
Awdur: Thomas Richards

Mab i Thomas Hughes o Borthllongdy drwy ei briodas ag un o ferched Maesoglan; ei wraig oedd Marged, merch y sgweier Ifan Wynn o Benllech yn Llŷn (priodi yn 1661). Am flynyddoedd cymdogaeth dda oedd rhynghdo a **Bwcleaid** Baron Hill; yr oedd yn dal les ar 'ferry' Abermenai, drwy eu bendith hwy; ac ef yn 1683 a ddarparodd bapurau priodas rhwng un o ferched Bwcle a **John Griffith ieuanc** o Gefn Amwllch. Yn yr un flywyd Owen Hughes oedd siryf Môn, ac yn destun cywydd tra molianus gan **Edward Morus**; er y gormodiaith amlwg sydd ynddo, y mae'n agosach i'r gwir nag ystoriâu anghyfrifol **Angharad Llwyd**. Ni ddaliodd yr heddwch â **Bwcle** yn hir; daeth y twrne yn faer Niwbwrch, llwyddodd i gasglu clymlaid o'r bwrdeiswyr o'i ochr drwy aiflywiogi hawlau'r hen dref honno, a chyn bod pobl Biwmaries wedi deffro o'u cwsig, wele ef yn aelod seneddol dros wrdeisdrefi Môn, a mwynhau'r faint honno am dair blynedd (1698-1700). Crafangodd beth wmbredd o dir i'w ddwylo a chasglu peth dirfawr o arian, gymaint felly fel yu i'w ewyllys roddi bywyd newydd mewn hen stadau, a'u gosod ar eu traed; aeth Bodfan ger Llandwrog i Lloyd Bodwel, gŵr Ann ei nith; aeth Madryn yn Llŷn i orwydes ei chwaer **Jane**; a bu teulu Llysdulas ym Môn yn dra dyledus i'r ffaith fod mam y sgweier William Lewis yn nith arall i Owen Hughes.

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 116, 176-7, 272

Angharad Llwyd, *A History of the Island of Mona, or Anglesey including an account of its natural productions, Druidical antiquities, lives of eminent men, the customs of the court of the ancient welsh princes, etc. :being the prize essay to which was adjudged the first premium at the Royal Beaumaris Eisteddfod, held in the month of August, 1832* (Rhuthin 1833), 143-4

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895), 11

Llawysgrifau Henblas yn Llyfrgell Coleg y Gogledd, Bangor 1-4, 91-9, 103-10

Llawysgrifau Garthewin yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, 1986-94

Trafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr a Naturiaethwyr MÃ'n, 1943, 23-4, 26-8

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734073](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA

Richards, T., (1953). HUGHES, OWEN ('yr Arian Mawr'; bu farw 1708), twrne ym Miwmaries.. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HUGH-OWE-1708>

[Copio i'r clipwriad](#)

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nosbaria
Llyfrgell Cymru
Sponsored by
Welsh Government